Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Polisi Ymlyniad Crefyddol

2025/26

**Cynnwys**

1. Diben y Polisi .......... 2
2. Egwyddorion Cyffredinol .......... 3
3. Cwmpas .......... 3
4. Y Broses Gweithgareddau Addysgu a Dysgu .......... 4
5. Y Broses Arholiadau ac Asesiadau .......... 5
6. Y Broses Gwyno .......... 6
7. Hygyrchedd .......... 6

## 1 Diben y Polisi

1.1 Diben y polisi hwn yw nodi trefniadau ar gyfer sut y bydd gweithgareddau addysgu, ac arholiadau ac asesiadau, yn cael eu trefnu a'u gwneud yn hygyrch i fyfyrwyr ar raglenni israddedig ac ôl-raddedig a addysgir lle gwneir cais i ystyried trefniadau amgen ar gyfer ymlynu at ofynion crefyddol.

1.2 Bydd y Polisi hwn yn berthnasol i ddarpariaeth partneriaeth oni bai bod trefniadau amgen penodol wedi'u cytuno rhwng Prifysgol Wrecsam a'r sefydliad partner ac wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Cytundeb ar gyfer y bartneriaeth ac unrhyw lawlyfrau myfyrwyr.

1.3 Cyfoethogir Prifysgol Wrecsam drwy gofleidio poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr a staff o wahanol grefyddau, credoau crefyddol neu absenoldeb hynny. Mae'n cydnabod awydd a hawl myfyrwyr i ddilyn eu crefydd eu hunain. Nod y Brifysgol yw hwyluso hyn, lle mae'n rhesymol ac yn ymarferol gwneud hynny, gan barhau i ymrwymo i safonau academaidd a darparu addysgu, dysgu ac ymchwil o ansawdd uchel.

1.4 Mae Prifysgol Wrecsam yn cydnabod ymrwymiad myfyrwyr unigol i ddilyn arfer ysbrydol neu grefyddol a chefnogi eu hawl i wneud hynny mewn awyrgylch o oddefgarwch a pharch.

1.5 Mae Polisi Ymgysylltu Academaidd Myfyrwyr Prifysgol Wrecsam yn nodi bod disgwyl i fyfyrwyr fynychu pob dosbarth ac asesiad yn unol â gofynion eu rhaglen.

1.6 Mae calendr academaidd Prifysgol Wrecsam yn seiliedig ar wyliau cyhoeddus cenedlaethol. Cyn belled ag y bo modd, bydd yr amserlen academaidd a chalendr arholiadau yn cael eu trefnu i osgoi gwyliau crefyddol pwysig. Fodd bynnag, ni all yr amserlen academaidd a'r calendr arholiadau ddarparu ar gyfer yr holl amrywiaeth o arferion crefyddol y gallai pob aelod o'n cymuned ddymuno ymgymryd â nhw.

1.7 Diben y polisi hwn yw nodi trefniadau ar gyfer sut y caiff gweithgareddau addysgu a dysgu, arholiadau ac asesiadau eu trefnu a'u gwneud yn hygyrch i fyfyrwyr, lle gwneir cais i ystyried trefniadau amgen ar gyfer gofynion ymlyniad crefyddol.

1.8 Mae'r polisi hwn yn darparu ar gyfer crefydd a chred fel y'u diffinnir yn adran 10 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae deddfwriaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn Neddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd gwahaniaethu ac erledigaeth yn erbyn person ar sail crefydd, cred a diffyg cred.

1.9 Sylwer na fydd y Polisi Ymlyniad Crefyddol yn berthnasol i raglenni neu fodiwlau penodol sydd â gofynion Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRB) amgen. Gall y PSRB ddarparu ei bolisi ei hun. Dylai myfyrwyr ar y rhaglenni hynny wirio gyda'u Tîm Rhaglen i gael rhagor o fanylion ac arweiniad.

## 2 Egwyddorion Cyffredinol

2.1 Bydd Prifysgol Wrecsam yn canolbwyntio bob amser ar ddarparu cymorth a galluogi datrys yn gyflym. Bydd hyn yn cynnwys eglurder o ran iaith a phroses.

2.2 Bydd tegwch, cysondeb a chyfiawnder naturiol wrth drin y corff myfyrwyr yn ei gyfanrwydd, yn ogystal ag ar gyfer unigolion penodol, yn cael eu cynnal. Bydd hyn yn cynnwys:

- Ystyried ceisiadau am drefniadau amgen heb gyfeirio at farciau unigol neu eu gweld.
- Sicrhau bod penderfyniadau ynghylch ceisiadau am drefniadau amgen ar gyfer addysgu, arholiadau ac asesiadau yn cael eu gwneud gan rai heb wrthdaro rhwng buddiannau.
- Sicrhau nad yw myfyrwyr dan anfantais nac yn cael mantais o'u cymharu â'u cymheiriaid o ganlyniad i'r trefniadau amgen.
- Cynnal didueddrwydd mewn penderfyniadau ac uniondeb barn academaidd wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau am drefniadau amgen ar gyfer arholiadau neu asesiadau.

2.3 Cynnal ymwybyddiaeth o'r cyfle i wneud cais am drefniadau amgen ar gyfer arholiadau ac asesiadau drwy gydweithio â gwasanaethau cefnogi myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr a'r Gaplaniaeth.

2.4 Bydd y Brifysgol yn cynnal ymwybyddiaeth o'r cyfle i wneud cais am drefniadau amgen ar gyfer arholiadau ac asesiadau drwy gydweithio â Bywyd Myfyrwyr a Champws, Undeb y Myfyrwyr a'r Gaplaniaeth.

2.5 Bydd gwasanaethau a gwybodaeth briodol yn weladwy, yn hygyrch ac ar gael i fyfyrwyr ar adegau allweddol perthnasol yn y flwyddyn academaidd.

2.6 Bydd y Brifysgol yn sicrhau y bydd ceisiadau'n cael eu cofnodi'n briodol, gan ystyried lefelau priodol o gyfrinachedd a diogelu data sensitif a phersonol gan gynnwys gofyn am ganiatâd perthnasol, fel y bo'n briodol, er mwyn gallu rhannu gwybodaeth angenrheidiol yn effeithiol.

2.7 Wrth i Brifysgol Wrecsam ddysgu o geisiadau am drefniadau amgen yn seiliedig ar ymlyniad crefyddol, bydd yn ceisio gwella profiad myfyrwyr gan gynnwys drwy hyfforddiant priodol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o dan y polisi hwn yn y Brifysgol.

## 3 Cwmpas

3.1 Mae'r polisi hwn yn cwmpasu'r agweddau hynny ar ymlyniad crefyddol y gall myfyrwyr hysbysu'r Brifysgol amdanynt cyn eu gweithgareddau addysgu, asesiadau ac arholiadau. Gall y rhain gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Ymlyniad crefyddol fel gwyliau, digwyddiadau a diwrnodau crefyddol eraill o fewn cyfnod penodol.
- Ymlyniad neu arferion eraill sy'n ofynnol ar ddyddiad(au) neu amser(au) penodol.

3.2 Dylid ymdrin â digwyddiadau na ellir eu rhagweld neu na ellir eu hatal (e.e. lle mae angen ymlyniad crefyddol penodol pan fo marwolaeth perthynas agos yn digwydd a phan fo angen mathau penodol o alaru) o dan y trefniadau ar gyfer ystyried Amgylchiadau Esgusodol.

3.3 Gellir defnyddio'r Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol hefyd mewn achosion lle mae lles myfyriwr yn cael ei effeithio o ganlyniad i weithgareddau a gyflawnir oherwydd ymlyniad crefyddol (e.e. llewygu yn ystod arholiad o ganlyniad i ymprydio) ac yn cael effaith andwyol ar berfformiad myfyriwr yn ystod arholiad.

3.4 Dylid rheoli arferion crefyddol nad ydynt yn ofynnol ar ddyddiad(au) neu amser(au) penodol o amgylch eich astudiaethau.

3.5 Os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny, gellir ymdrin ag achosion o ymlyniad crefyddol hefyd o dan y Polisi Atal Astudiaethau.

## 4 Y Broses Gweithgareddau Addysgu a Dysgu

4.1 Dylai myfyrwyr wirio dyddiadau tymhorau a'u hamserlen academaidd cyn gynted ag y bydd y rhain ar gael i nodi dyddiadau lle gallai eu hymrwymiadau prifysgol wrthdaro â dyddiad yr hoffent ymgymryd ac ymlyniad crefyddol pwysig. Cyhoeddir dyddiadau tymhorau cyn y flwyddyn academaidd ar y wefan.

4.2 Os oes gan fyfyrwyr ofynion crefyddol gorfodol a allai effeithio ar eu presenoldeb mewn gweithgareddau addysgu a dysgu arferol, dylent drafod y mater gyda Thîm eu Rhaglen.

4.3 Dylai myfyriwr a hoffai ofyn am gymeradwyaeth i absenoldeb gan y Brifysgol i gadw at ŵyl grefyddol neu ymgymryd ag ymarfer crefyddol arall wneud cais drwy ebost i'w Arweinydd Rhaglen cyn gynted â phosibl a dim hwyrach na thair wythnos cyn dyddiad yr absenoldeb y gofynnir amdano. Bydd Tîm eich Rhaglen yn ceisio prosesu eich cais o fewn deg diwrnod gwaith i'w dderbyn.

4.4 Bydd Tîm y Rhaglen yn ystyried achosion gan fyfyrwyr y byddai eu hymlyniad crefyddol gorfodol fel arall yn peri iddynt golli gweithgareddau addysgu neu ddysgu wedi'u trefnu mewn amgylchiadau lle mae ymlyniad crefyddol yn digwydd dros gyfnod cyfyngedig a byddant yn ceisio gwneud trefniadau amgen rhesymol, os yw hynny'n bosibl.

4.5 Fodd bynnag, dim ond ar yr amod eu bod yn cynnal safon gradd y myfyriwr y gellir gwneud addasiadau (e.e. ni fydd myfyrwyr yn cael eu hesgusodi o rannau o'r rhaglen sy'n cael eu heffeithio gan ymlyniad crefyddol neu rhag bodloni'r deilliannau dysgu cyffredinol).

4.6 Os na ellir dod o hyd i ddewis amgen rhesymol, ni fydd yn bosibl addasu gweithgareddau addysgu neu ddysgu a drefnwyd.

4.7 Os bydd myfyriwr yn methu â mynychu dosbarth neu weithgaredd prifysgol arall heb gael cymeradwyaeth ymlaen llaw, bydd hyn yn cael ei drin fel unrhyw absenoldeb arall heb awdurdod.

## 5 Y Broses Arholiadau ac Asesiadau

5.1 Os yw'n debygol y bydd Ymlyniad Crefyddol yn effeithio ar eich presenoldeb mewn arholiad neu asesiad, rhaid i chi wneud cais am drefniadau amgen cyn gynted â phosibl a dim hwyrach na thair wythnos cyn dechrau'r cyfnod arholi (ar gyfer arholiadau) neu ddyddiad cau'r asesiad.

5.2 I wneud cais am drefniadau amgen o dan y polisi hwn, dylech gyflwyno eich cais drwy e-bost i Arweinydd eich Rhaglen (ochr yn ochr â thystiolaeth ategol) o leiaf dair wythnos cyn dechrau'r cyfnod arholiadau neu'r dyddiad cau ar gyfer yr asesiad yr effeithir arno. Gall enghraifft o dystiolaeth fod yn llythyr cefnogol gan arweinydd ffydd y gymuned yr ydych yn ymarfer ynddi, i gynghori ynghylch arwyddocâd y digwyddiad a’ch cyfranogiad.

5.3 Unwaith y bydd cais wedi'i gyflwyno, rydych yn cynghori'r Brifysgol nad ydych yn gallu sefyll yr arholiad neu'r asesiad ar yr amser a drefnwyd yn wreiddiol ac felly byddwch yn derbyn y trefniadau amgen lle mae'n bosibl i'r Brifysgol eu cynnig.

5.4 Bydd y Brifysgol yn ystyried pob cais fesul achos.

5.5 Bydd eich cais am drefniadau amgen yn cael ei ystyried a’i gymeradwyo ochr yn ochr â’r ystyriaethau canlynol:

- Hyd yr ymlyniad crefyddol.
- Os a phryd bydd cyfle pellach i sefyll yr arholiad neu’r asesiad yn y modiwl.
- A fydd y cyfle nesaf sydd ar gael i sefyll yr arholiad neu’r asesiad yn effeithio ar yr amser y byddai’n ei gymryd i symud ymlaen a/neu gwblhau’r rhaglen.
- Uniondeb academaidd a safonau academaidd yr arholiad neu’r asesiad, gan gynnwys yr angen i sicrhau diogelwch yr asesiad.
- Unrhyw ffactor perthnasol arall a allai effeithio ar y cais.

5.6 Pan fydd eich cais yn cael ei gymeradwyo, bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i aildrefnu'r arholiad neu'r asesiad i ddiwallu eich anghenion. Fodd bynnag, efallai na fydd bob amser yn briodol nac yn bosibl caniatáu cais am drefniadau amgen, er enghraifft asesiad gwaith grŵp lle gallai cymeradwyo’r cais arwain at ganlyniadau niweidiol i aelodau eraill o’r grŵp.

5.7 Bydd ceisiadau a gymeradwywyd am drefniadau amgen yn cael eu trefnu o fewn yr un cyfnod arholi neu asesu, lle bo hynny'n bosibl.

5.8 Os oes modd gwneud trefniadau eraill o fewn yr un cyfnod arholi neu asesu, bydd asesiad ar wahân yn cael ei gynnal. Bydd hyn yn cael ei gymedroli i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â’r trefniadau asesu eraill.

5.9 Efallai na fydd bob amser yn bosibl i'r Brifysgol aildrefnu'r asesiad yn ystod yr un cyfnod arholi neu asesu. Yn yr achos hwn, efallai y cynigir cyfle i chi sefyll yr asesiad rywbryd yn y dyfodol, a fydd fel arfer ar y cyfle nesaf sydd ar gael ar gyfer yr arholiad neu'r asesiad yr effeithir arno.

5.10 Os cewch gynnig dyddiad arall ar gyfer eich arholiad neu asesiad ar y cyfle nesaf sydd ar gael, gall hyn olygu na fyddwch yn gallu symud ymlaen i'r flwyddyn academaidd nesaf neu raddio fel y cynlluniwyd. Bydd hyn yn dibynnu ar y cyfle nesaf sydd ar gael i'r asesiad neu'r arholiad gael ei gynnal. Os felly, bydd Tîm eich Rhaglen yn rhoi gwybod i chi er mwyn i chi allu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch pryd i sefyll yr asesiadau a/neu'r arholiadau yr effeithir arnynt. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Arweinydd eich Rhaglen.

5.11 Os byddwch yn sefyll ac yn methu arholiad a gynigiwyd i chi o ganlyniad i gais llwyddiannus am drefniadau amgen, bydd angen i chi aros tan y cyfle nesaf sydd ar gael i ailsefyll yr arholiad neu'r asesiad. Mae hyn yn dibynnu ar ba bryd y cynhelir yr asesiad neu'r arholiad nesaf. Mewn achosion o'r fath, gall olygu na fyddwch yn gallu symud ymlaen i'r flwyddyn academaidd nesaf neu raddio fel y cynlluniwyd.

5.12 Os ydych yn dymuno gofyn i aildrefnu ailsefyll arholiad neu asesiad, bydd angen i chi fod yn ymwybodol, os nad yw'n bosibl ei aildrefnu o fewn yr un cyfnod, na fyddwch yn gallu ailsefyll tan y cyfle nesaf sydd ar gael. Gallai hyn gynyddu'r amser y mae'n ei gymryd i chi symud ymlaen neu raddio.

5.13 Bydd y Brifysgol yn gweithio gyda myfyrwyr ac yn cynnig cymorth iddynt cyn y cyfnod cofrestru hwyaf sy'n gwneud cais am arholiadau neu asesiadau amgen. Yn yr achos hwn, bydd unrhyw gymorth a ddarperir yn cael ei ystyried drwy ddefnyddio dull fesul achos yn unol â'r Rheoliadau Academaidd a'r Polisi Asesu.

5.14 Os ydych yn fyfyriwr Ymchwil ôl-raddedig, rhaid i chi drafod eich amgylchiadau gyda'ch goruchwyliwr cyn gynted â phosibl. Cytunir ar ddyddiadau arholiadau llafar ar y cyd gyda chi y myfyriwr, a dylech wneud pob ymdrech i sicrhau eich bod yn rhoi gwybod i'ch Goruchwyliwr am eich ymrwymiadau o ran Ymlyniad Grefyddol cyn pennu dyddiad arholiad llafar.

## 6 Y Broses Gwyno

6.1 Os hoffech gyflwyno cwyn am benderfyniadau ynghylch ceisiadau am drefniadau amgen ar gyfer arholiadau neu asesiadau, dylech ddilyn y gweithdrefnau a nodir yng Ngweithdrefn Gwyno y Brifysgol.

## 7 Hygyrchedd

7.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn ymdrechu i fod yn brifysgol gefnogol sy'n deall trawma wrth ddylunio a gweithredu ein holl brosesau a gweithdrefnau. Os oes angen addasiadau arnoch i gael mynediad at y weithdrefn hon neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch hygyrchedd, geiriad neu unrhyw ran o'r weithdrefn hon, anfonwch e-bost atom at quality@wrexham.ac.uk.